


PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY

# Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu Byd-eang

Pecyn Ymgeiswyr



# Rhagarweiniad

## Mae Prifysgol Bangor yn sefydliad nodedig dan arweiniad ymchwil, gydag ymdeimlad cryf o le a phwrpas. Wedi'i lleoli yng ngogledd Cymru, mae'n cyfuno rhagoriaeth academaidd ag ymrwymiad dwfn i gymuned, diwylliant ac effaith fyd-eang.

Cafodd y Brifysgol ei sefydlu yn 1884, ac mae wedi meithrin enw da am addysgu o ansawdd uchel, ymchwil effeithiol a phrofiad eithriadol i fyfyrwyr. Heddiw, mae'n sefydliad hyderus, sy'n edrych tuag allan gydag uchelgais fyd-eang, ac sy’n awyddus i gryfhau ei gyrhaeddiad rhyngwladol, ei bartneriaethau a'i enw da ymhellach.

Bydd y Dirprwy Is-ganghellor Ymgysylltu Byd-eang yn chwarae rhan ganolog wrth lunio a chyflawni'r uchelgais hon. Fel aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth fyd-eang gydlynol, gan sbarduno twf o ran recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, ehangu a gwella partneriaethau addysg drawswladol, ac adeiladu proffil byd-eang cryfach a mwy gweladwy.

Mae'r swydd yn gofyn am arweinydd profiadol a chredadwy sydd â phrofiad o gyflawni strategaeth ryngwladol, meithrin partneriaethau gwerth uchel ac arwain newid o fewn sefydliadau cymhleth. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn dod â rhwydweithiau personol cryf, dealltwriaeth fanwl o farchnadoedd addysg uwch byd-eang, a'r gallu i ddylanwadu ar gydweithwyr ar draws y sefydliad a'u hysbrydoli.

Dyma gyfle cyffrous i ymuno â Phrifysgol Bangor ar adeg hollbwysig yn ei datblygiad ac i chwarae rhan ddiffiniol wrth osod y Brifysgol fel sefydliad â chysylltiadau byd-eang sydd ag effaith a chyrhaeddiad.

# Amdanom Ni

## Enw Da am Ragoriaeth

Sefydlwyd Prifysgol Bangor yn 1884 ac mae ganddi draddodiad hir o ragoriaeth a mynd tu hwnt i ddisgwyliadau o ran safonau academaidd a phrofiad myfyrwyr.

Mae tua 10,000 o fyfyrwyr yn astudio yn y Brifysgol ar hyn o bryd, gyda staff addysgu wedi'u gwasgaru ar draws un ar ddeg o Ysgolion Academaidd. Gosodwyd ymchwil Prifysgol Bangor mewn safle uchel yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf Llywodraeth y Deyrnas Unedig (REF2021), gydag 85% ohono yn cael ei farnu gyda'r gorau yn y byd (4*) neu'n rhagorol yn rhyngwladol (3*). Mae ymchwil Prifysgol Bangor i Wyddorau Daear a Gwyddorau'r Amgylchedd wedi ei osod yn y safle cyntaf am effaith ymchwil, tra bod Proffesiynau Perthynol i Iechyd, Deintyddiaeth, Nyrsio a Fferylliaeth yn y 15fed safle yn gyffredinol yn y Deyrnas Unedig. Mae hynny'n adeiladu ar y cryfderau ymchwil sydd gennym yn y gwyddorau dynol ac mae'n helpu i ddatblygu iechyd a gofal cymdeithasol at y dyfodol a hynny'n gynaliadwy, yn seiliedig ar le ac yn hybu twf y sector gwyddorau bywyd rhanbarthol.

Cafodd Prifysgol Bangor lwyddiant cyson yn yr Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr ac mae gyda'r 10 prifysgol orau yn y Deyrnas Unedig yn rheolaidd (ac eithrio sefydliadau arbenigol) am foddhad myfyrwyr. Prifysgol Bangor oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i dderbyn Dyfarniad Aur yn y Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu (TEF) cenedlaethol, a daliodd ei gafael ar y safon honno tra bu'r fframwaith yn weithredol. Yn ddiweddar cawsom ein henwi fel Prifysgol y Flwyddyn 2024 yng Nghymru yn y canllaw prifysgolion cyntaf i'r Daily Mail ei gyhoeddi, a daethom i'r brig trwy'r Deyrnas Unedig yn nhabl cynghrair amgen Unifresher's 2023.

## Ein Cenhadaeth

Sefydliad cryf a hyderus a gydnabyddir yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel canolfan ragoriaeth am ei bortffolio amrywiol o addysgu ac ymchwil, ac am y profiad unigryw, amlddiwylliannol a chynhwysol y mae'n ei roi i'w staff a'i fyfyrwyr.

## Ein Gweledigaeth

Prifysgol ac iddi gysylltiadau byd-eang, sy'n gwireddu cyfleoedd i lwyddiant trwy ymchwil ac addysgu trawsnewidiol ac arloesol a sbardunir gan effaith, gyda phwyslais ar gynaliadwyedd: diogelu'r amgylchedd, adfywio iechyd cymdeithas, a hyrwyddo ffyniant economaidd, cymdeithasol, dwyieithog, a diwylliannol.



# Ein Hanes

Sefydlwyd y Brifysgol o ganlyniad uniongyrchol i ymgyrch yn niwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg i gael darpariaeth addysg uwch yng Nghymru. Casglwyd arian trwy danysgrifiad cyhoeddus er mwyn sefydlu coleg ar lefel prifysgol ym Mangor.

Un o nodweddion pwysig ei sefydlu oedd y cyfraniadau gwirfoddol a wnaed gan bobl leol, gan gynnwys, ymhlith eraill, nifer o ffermwyr a chwarelwyr. Nid oeddent yn gallu fforddio rhoi o'u harian prin, ond gwnaethant hynny er gwaetha'r anawsterau er budd cenedlaethau'r dyfodol.

Mae’r Brifysgol yn parhau i gofio’r cyfraniadau hynny a arweiniodd at ei sefydlu a chefnogaeth y gymuned byth ers hynny, ac mae'n parhau’n driw i'r weledigaeth wreiddiol honno a'r angen i gofio am ei gwreiddiau wrth inni adeiladu'r Brifysgol i’r dyfodol. Yn wir, caiff y gwerthoedd hynny eu hadlewyrchu heddiw nghefnogaeth y Brifysgol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (2015).



# Ein Campysau

Mae lleoliad Bangor - yn agos at y mynyddoedd a'r môr - wedi ei ddisgrifio fel y lleoliad gorau i brifysgol yn y Deyrnas Unedig. Er enghraifft, enwyd Gogledd Cymru fel y 4ydd rhanbarth gorau yn y byd i ymweld ag ef gan y tywyslyfr teithio, Lonely Planet, oherwydd y lleoliad ysblennydd a’r cyfleusterau chwaraeon antur newydd sbon danlli sydd yma.

Mae buddsoddiadau diweddar y Brifysgol mewn cyfleusterau a gwasanaethau yn cynnwys sefydlu Canolfan Gelfyddydau ac Arloesi Pontio, agor 600 o ystafelloedd newydd ym Mhentref Myfyrwyr y Santes Fair ac ailddatblygu cyfleusterau chwaraeon y Brifysgol yng Nghanolfan Brailsford. Daeth neuaddau myfyrwyr Prifysgol Bangor yn drydydd trwy’r Deyrnas Unedig yng ngwobrau What Uni Student Choice Awards 2022. Gosododd arolwg y Times Higher Education Student Experience Survey 2018 Brifysgol Bangor yn y 10 uchaf yn y Deyrnas Unedig o ran llety.

Mae cyrhaeddiad y Brifysgol yn ymestyn ymhell y tu hwnt i'r campws ym Mangor. Fel Prifysgol Gogledd Cymru, mae gan y Brifysgol gyfleusterau a champysau ledled y rhanbarth, gan gynnwys campws sylweddol yn Wrecsam gyda dros 500 o fyfyrwyr yn cael eu haddysgu yno, a chyfleusterau ymchwil ledled gogledd Cymru. Mae cyfleusterau addysgu clinigol hefyd i fyfyrwyr meddygaeth a gofal iechyd ar safleoedd Ysbyty Gwynedd, Ysbyty Glan Clwyd ac Ysbyty Maelor Wrecsam ac mewn sawl ysbyty cymunedol. Mae gan y Brifysgol hefyd berthynas waith glos gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a darparwyr gofal iechyd sylfaenol ledled y gogledd.

## Addysgu a Dysgu

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn ansawdd yr addysgu. Hon oedd y brifysgol gyntaf yng Nghymru i ennill dyfarniad aur yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu 2017, sy'n dyst i waith y staff a hwythau'n darparu addysgu, dysgu a deilliannau rhagorol i'n myfyrwyr. Ategwyd hynny mewn adolygiad diweddar gan Asiantaeth Sicrhau Ansawdd y Deyrnas Unedig a arweiniodd at y gymeradwyaeth uchaf posib i safonau academaidd y Brifysgol. Mae hyn yn trosi'n brofiad gwych i fyfyrwyr, gyda chanlyniadau Arolwg Cenedlaethol Myfyrwyr 2020 yn gosod Prifysgol Bangor ymhlith 10 prifysgol brif ffrwd orau'r Deyrnas Unedig o ran boddhad myfyrwyr; safle y mae wedi'i ddal yn rheolaidd ers sawl blwyddyn.

## Profiad Myfyrwyr

Mae bywyd myfyrwyr ym Mhrifysgol Bangor yn fywiog ac amrywiol. Mae'r amrywiaeth fawr o glybiau a chymdeithasau sydd o dan ofal Undeb y Myfyrwyr yn darparu ar gyfer ystod o ddiddordebau, gweithgareddau a chwaraeon, ac mae rhywbeth at ddant pawb. Cynigir aelodaeth am ddim i fyfyrwyr sy'n golygu bod pob myfyriwr yn gallu manteisio ar y cyfleoedd allgyrsiol di-ri'. Rhoddir cymorth a chefnogaeth i fyfyrwyr o'r eiliad y maent yn cyrraedd. Mae ein Canolfan Gwasanaethau Myfyrwyr yn darparu cyngor ac arweiniad ar faterion yn ymwneud ag arian a llety, cefnogaeth i fyfyrwyr anabl, cwnsela, dyslecsia, sgiliau astudio a darpariaethau addoli lleol.

## Ymchwil

Cenhadaeth Prifysgol Bangor yw bod yn Brifysgol Gogledd Cymru ar gyfer Gogledd Cymru, sy'n cael ei harwain gan ymchwil ac sy'n darparu profiadau dysgu trawsnewidiol ac yn meithrin effaith gadarnhaol ar gymdeithas yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol (Strategaeth 2030).

Ledled y Brifysgol, mae cysylltiad clos rhwng ymchwil ac addysgu: mae bron pob un o'r academyddion ymchwil yn addysgu, gan sicrhau bod y myfyrwyr yn elwa o'r wybodaeth a grëir gan ein hymchwil.

Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2021, nodwyd bod 40% o'n hymchwil yn 4* neu gyda'r gorau yn y byd a 45% yn 3* neu'n rhagorol yn rhyngwladol. Sgoriwyd 77% o ymchwil Prifysgol Bangor yn 4* neu'n 3* yn y REF blaenorol yn 2014. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2021 cynyddodd hynny i 85%. Mae Prifysgol Bangor yn safle 41 am y gyfran o'n hamgylchedd ymchwil yr ystyrir ei fod gyda'r gorau yn y byd, ac yn safle 46 (allan o 129 - heb gynnwys chwe sefydliad un pwnc) yn y sector am allbynnau ymchwil megis cyhoeddiadau.

## Ein Hymrwymiad i Gynaliadwyedd

Mae Prifysgol Bangor yn ymrwymedig i gael ei chydnabod yn fyd-eang fel "Y Brifysgol Gynaliadwy". Mae llawer o'r hyn a wnawn yn seiliedig ar yr awydd i ddod â chynaliadwyedd i bob agwedd ar fywyd, o ran ein haddysgu, ein hymchwil a'n ymgysylltiad â'r cyhoedd. Byddwn yn defnyddio dull cyfannol y Brifysgol iach, ac rydym yn cefnogi'r staff i wireddu eu potensial, ymdopi â straen arferol bywyd, gweithio'n gynhyrchiol a chyfrannu at eu cymunedau. Mae ein blaenoriaethau'n canolbwyntio ar ataliaeth ac ymyrraeth gynnar i feithrin gwytnwch, llesiant cenedlaethau'r dyfodol, a symud, gweithgarwch corfforol a chwaraeon.

## Iaith a diwylliant

Ers ei sefydlu yn 1884 mae gan y Brifysgol draddodiad o gysylltiadau cadarn â'i chymuned leol. Mae cysylltiad annatod rhwng ein hunaniaeth a'n lleoliad ac rydym yn chwarae rhan flaenllaw yn niwylliant ac economi Cymru a meithrin yr iaith Gymraeg. Ni yw'r prif ddarparwr addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg yn y byd, o ran maint, ystod y cyrsiau a'r arbenigedd, ac rydym hefyd yn arwain y sector o ran gwasanaethau a chefnogaeth sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

## Cydraddoldeb, Cynhwysiant ac Amrywiaeth

Mae'r Brifysgol yn ymrwymo i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ac i greu amgylchedd gwaith cynhwysol. Credwn mai trwy ddenu, datblygu a dal gafael ar amrywiaeth eang o staff o nifer o wahanol gefndiroedd y mae cyflawni hynny. Felly, rydym yn croesawu ymgeiswyr o bob rhan o'r gymuned beth bynnag eu rhyw, hunaniaeth rhywedd, ethnigrwydd, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, hunaniaeth drawsryweddol, statws perthynas, crefydd neu gred, cyfrifoldebau gofalu, neu oedran. Rydym yn hyrwyddo ac yn hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg trwy ein Polisi Iaith blaengar. Rydym yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg ac yn ymrwymo i gyfle cyfartal. Mae croeso i chi wneud cais am bob swydd yn Gymraeg neu yn Saesneg. Caiff pob cais ei drin yn gyfartal. Rydym yn aelod o siarter Cydraddoldeb Rhyw Athena SWAN Advance HE ac rydym wedi ennill dyfarniad arian i gydnabod ein hymrwymiad i gydraddoldeb rhyw a'r cynnydd a wneir ym mholisïau, arferion a diwylliant y Brifysgol. Mae ein hymroddiad i gydraddoldeb yn cael ei gydnabod gan ein statws Efydd o ran y Siarter Cydraddoldeb Hil ac rydym yn falch o fod yn gyflogwr sy'n Hyderus o ran Anabledd.



# Y Swydd

| | |
|---|---|
| Teitl y swydd: | Dirprwy Is-ganghellor (Ymgysylltu Byd-eang) |
| Yn atebol i: | Y Dirprwy i'r Is-ganghellor |

## Amlinelliad o'r swydd

Fel aelod o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, mae hon yn swydd arweinyddol strategol allweddol sy'n cynnwys cyfrifoldeb dros lunio a hyrwyddo agenda ymgysylltu byd-eang Prifysgol Bangor. Bydd deiliad y swydd yn arwain y gwaith o ddatblygu a chyflwyno Strategaeth Ymgysylltu Byd-eang gynhwysfawr sy'n gwella enw da rhyngwladol y Brifysgol, yn dyfnhau partneriaethau academaidd byd-eang ac yn cefnogi twf rhyngwladol cynaliadwy.

Bydd y swydd yn chwarae rhan ganolog wrth atgyfnerthu ac esblygu portffolio partneriaethau byd-eang y Brifysgol, ehangu ei phresenoldeb mewn marchnadoedd rhyngwladol blaenoriaeth a sicrhau dull cydlynol ac effeithiol o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol.

Bydd deiliad y swydd hefyd yn cyfrannu at y gwaith o archwilio a datblygu modelau newydd o ran darpariaeth ryngwladol a thrawswladol, gan gefnogi uchelgais hirdymor y Brifysgol o ran twf, arallgyfeirio a chyrhaeddiad byd-eang.

## Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

- Gweithredu fel aelod craidd o Fwrdd Gweithredol y Brifysgol, gan gyfrannu at strategaeth sefydliadol a sicrhau bod ymgysylltiad byd-eang wedi'i wreiddio ar draws yr holl flaenoriaethau strategol perthnasol.
- Darparu arweinyddiaeth strategol o ran agenda ymgysylltu byd-eang y Brifysgol, gan sbarduno rhyngwladoli ar draws partneriaethau, recriwtio, addysg a chysylltiadau allanol.
- Arwain datblygiad a chyflwyniad Strategaeth Ymgysylltu Byd-eang Prifysgol Bangor i gefnogi Strategaeth 2030, gan sicrhau ei bod yn cyd-fynd â blaenoriaethau academaidd ac uchelgais sefydliadol.
- Arwain adolygiad strategol o bortffolio partneriaethau byd-eang y Brifysgol, a'r gwaith datblygu ac optimeiddio portffolio, gan gynnwys addysg drawswladol a chydweithrediadau sefydliadol, gan sicrhau ansawdd, cynaliadwyedd ac effaith.
- Nodi a meithrin cyfleoedd a marchnadoedd rhyngwladol newydd, gan adeiladu ôl troed byd-eang amrywiol a gwydn sy'n cyd-fynd â chryfderau sefydliadol.
- Sicrhau cynaliadwyedd ariannol o fewn gweithgareddau ymgysylltu byd-eang, gan gynnwys marchnadoedd rhyngwladol, partneriaethau a ffrydiau incwm cysylltiedig.
- Gweithio'n agos gyda'r Dirprwy Is-ganghellor (Addysg), y Dirprwy Is-ganghellor (Ymchwil) a'r gymuned academaidd i nodi a hyrwyddo cydweithrediadau rhyngwladol sy'n gwella ymchwil, addysg ac effaith fyd-eang.

- Cydweithio â'r Prif Swyddog Marchnata a chydweithwyr perthnasol i ddarparu dull cydlynol, ar sail mewnwelediad, o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, gan gefnogi twf cynaliadwy, arallgyfeirio marchnadoedd a chronfa gref o ymgeiswyr.
- Goruchwylio datblygiad a chyflwyniad darpariaeth addysg drawswladol o ansawdd uchel a gweithgarwch partneriaeth, gan sicrhau cyfraniad effeithiol at amcanion academaidd ac ariannol y Brifysgol.
- Sicrhau y cydymffurfir â chod ansawdd yr ASA ac arwain y gwaith o gyflwyno Cynllun Ansawdd Addysg Drawswladol newydd yr ASA yn y Deyrnas Unedig.
- Cyfrannu at y gwaith o nodi a gwerthuso cyfleoedd strategol newydd o ran twf a darpariaeth ryngwladol, gan gynnwys modelau darpariaeth arloesol a lleoliadau newydd posibl, i gefnogi uchelgais hirdymor y Brifysgol.
- Meithrin a chynnal perthnasoedd lefel uchel gyda phartneriaid rhyngwladol, llywodraethau, asiantaethau a rhwydweithiau sy'n gwella statws a chyfleoedd byd-eang y Brifysgol.
- Cynrychioli'r Brifysgol mewn uwch fforymau cenedlaethol a rhyngwladol, gan weithredu fel llysgennad grymus, a chryfhau proffil byd-eang Prifysgol Bangor.
- Cyfrannu at berfformiad y Brifysgol mewn tablau cynghrair byd-eang a mesurau enw da drwy ddull cydlynol a strategol.
- Sicrhau profiad rhagorol a chynhwysol i fyfyrwyr rhyngwladol, gan gefnogi eu llwyddiant, eu dilyniant a'u hymgysylltiad hirdymor fel cyn-fyfyrwyr a hyrwyddwyr.

## Dyletswyddau a Chyfrifoldebau Eraill

- Bydd deiliad y swydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch datblygiadol ac adolygiadau perfformiad.
- Disgwylir i ddeiliad y swydd gydymffurfio â pholisïau cyfle cyfartal, Polisi Urddas wrth Weithio ac Astudio, a Safonau a Pholisi Iaith Gymraeg y Brifysgol.
- Mae gan ddeiliad y swydd ddyletswydd gofal mewn perthynas ag iechyd, diogelwch a llesiant, a rhaid iddo sicrhau amgylchedd gwaith diogel i staff, myfyrwyr ac ymwelwyr.
- Rhaid i ddeiliad y swydd gydymffurfio â'r holl bolisïau a gweithdrefnau cyfreithiol ac ariannol perthnasol.

# Gofynion Personol

## Cymwysterau

- Gradd neu brofiad proffesiynol cyfwerth.

## Profiad a Gwybodaeth

- Profiad sylweddol o arweinyddiaeth uwch o fewn sefydliad mawr a chymhleth, gyda hanes cadarn o gyflawni effaith strategol.
- Profiad sylweddol o arwain strategaethau ymgysylltu byd-eang neu ryngwladol neu o fewn addysg uwch neu sector tebyg.
- Profiad o ddatblygu, rheoli a thyfu partneriaethau rhyngwladol, gan gynnwys gweithgarwch addysg drawswladol.
- Dealltwriaeth fanwl o recriwtio myfyrwyr rhyngwladol, datblygu marchnadoedd a strategaethau arallgyfeirio.
- Profiad o nodi a datblygu cyfleoedd, marchnadoedd neu fodelau cyflwyno rhyngwladol newydd.
- Enw da a llawer o hygrededd a gafwyd trwy weithio ym maes uwch arweinyddiaeth a bod wedi eich cydnabod am eich llwyddiannau.
- Profiad o arwain newid sefydliadol a dylanwadu ar draws ffiniau sefydliadol.
- Dealltwriaeth fanwl o dirwedd addysg uwch fyd-eang, gan gynnwys tueddiadau geowleidyddol, polisi rhyngwladol a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.
- Ymwybyddiaeth o reoliadau UKVI a'u goblygiadau o ran gweithgarwch rhyngwladol.
- Rhwydwaith sefydledig o gysylltiadau rhyngwladol sy'n berthnasol i addysg uwch a chydweithio byd-eang.

## Sgiliau a Galluoedd

- Y gallu i weithredu mewn modd credadwy ar lefel weithredol, gan ddylanwadu ar gymunedau academaidd a phroffesiynol ar draws y sefydliad.
- Sgiliau cryf o ran meddwl yn strategol gyda'r gallu i drosi gweledigaeth yn ddarpariaeth ar draws systemau cymhleth.
- Sgiliau eithriadol o ran meithrin cysylltiadau a sgiliau rhyngbersonol eithriadol, gyda'r gallu i ymgysylltu â rhanddeiliaid amrywiol yn fyd-eang.
- Presenoldeb llysgenhadol grymus ac awthentig, yn gallu cynrychioli'r Brifysgol gydag awdurdod ac effaith.
- Sgiliau cyfathrebu a negodi rhagorol, gyda'r gallu i gyflawni canlyniadau trwy gydweithio a dylanwadu.
- Lefel uchel o ymwybyddiaeth ddiwylliannol a'r gallu i weithredu'n effeithiol ar draws gwahanol gyd-destunau rhyngwladol.
- Y gallu a’r parodrwydd i deithio'n rhyngwladol yn ôl yr angen.

# Telerau'r Penodiad

## Cyflog

Mae'r cyflog cychwynnol yn gystadleuol, a bydd yn dibynnu ar gefndir a phrofiad yr ymgeisydd llwyddiannus.

## Oriau Gwaith

Oherwydd natur y gwaith, nid yw'r Brifysgol yn pennu unrhyw delerau nac amodau o ran yr oriau gwaith o fewn ystyr deddfwriaeth cyflogaeth. Gweithir yr oriau gwaith angenrheidiol i gyflawni'r holl ddyletswyddau sy'n gysylltiedig â'r swydd yn foddhaol; ac ar gyfartaledd bydd ymrwymiad wythnosol arferol yn golygu gweithio rhwng 36.25 a 48 awr yr wythnos.

## Pensiwn

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i ymuno â Chynllun Pensiwn y Prifysgolion (USS) os nad yw eisoes yn derbyn pensiwn gan USS ac yn bodloni'r meini prawf. Bydd yr holl delerau ac amodau eraill yn unol â thelerau ac amodau cyflogaeth safonol y Brifysgol i staff academaidd ac academaidd-gysylltiedig.

## Gwyliau blynyddol

Y gwyliau blynyddol â thâl fydd 27 diwrnod yn ogystal â 7 diwrnod o wyliau arferol y Brifysgol a'r 8 Gŵyl y Banc / Gŵyl Gyhoeddus (neu'r hyn sy'n gyfwerth â hwy).

## Adleoli:

Lle bo hynny'n berthnasol, mae'r Brifysgol yn cynnig pecyn adleoli i gefnogi gweithwyr newydd sy'n cyflawni'r meini prawf cymhwysedd. Cynigir y pecyn adleoli fel cyfraniad tuag at y costau a wynebir. Mae wedi ei gynllunio i fod yn hyblyg, ac i ganiatáu i staff ddefnyddio'r gefnogaeth ariannol sydd ar gael yn y ffordd sydd fwyaf defnyddiol iddynt.

## Gofynion Cymhwysedd

Cynigiwn bob swydd yn amodol ar dystiolaeth o gymhwystra i weithio yn y Deyrnas Unedig, ac ar dderbyn tystlythyrau boddhaol.

Rhaid i bob ymgeisydd gyflawni gofynion 'hawl i weithio' y Deyrnas Unedig. Os oes arnoch angen caniatâd y Swyddfa Gartref i weithio yn y Deyrnas Unedig, neu mae angen newid statws eich fisa er mwyn cymryd y swydd hon, cofiwch i'r Llywodraeth gyflwyno cyfyngiadau mewnfudo ar nifer y gweithwyr medrus, ac rydym yn argymell i chi ddefnyddio'r cyswllt canlynol i gael gwybodaeth am y llwybrau i gyflogaeth ac i fwrw golwg dros y gofynion cymhwysedd: http://www.ukba.homeoffice.gov.uk

## Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Rydym yn gwerthfawrogi amrywiaeth ac yn croesawu ceisiadau o bob rhan o'r gymuned. Nod Prifysgol Bangor yw darparu amgylchedd sy'n parchu ac yn gwerthfawrogi cyfraniad cadarnhaol ei holl aelodau, fel y gallant wireddu eu potensial yn llawn a chael budd a mwynhad o'u hymwneud â bywyd y Brifysgol.



# Sut i wneud cais

Mae Anderson Quigley yn gweithredu fel ymgynghorydd cyflogaeth i Brifysgol Bangor. Cynhelir proses chwilio weithredol gan Anderson Quigley yn ogystal â'r hysbyseb gyhoeddus.

Os hoffech drafod y swyddi yn gwbl gyfrinachol, cysylltwch ag Alicja Janowska ar +44 (0)7743 927 783, alicja.janowska@andersonquigley.com neu Ed Pritchard ar +44 (0)7980 817 927, ed.pritchard@andersonquigley.com

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, dydd Llun 1 Mehefin 2026.

Dylai ceisiadau gynnwys:

- CV llawn;
- Llythyr eglurhaol (uchafswm o ddwy dudalen) yn amlinellu sut rydych yn bodloni'r pwyntiau o dan y Gofynion Personol;
- Cofiwch gynnwys manylion dau ganolwr, er na fyddwn yn cysylltu â chanolwyr heb eich caniatâd ymlaen llaw, a dim ond ydych yn cyrraedd y rhestr fer y byddwn yn gwneud hynny.
- Dylid uwchlwytho ceisiadau wedi'u cwblhau yn https://andersonquigley.com/job/aq3550/

ANDERSON QUIGLEY | SEARCH INTERIM ADVISORY

PRIFYSGOL BANGOR UNIVERSITY



bangor.ac.uk

PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY